# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 18 Chwefror 2014**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(181)v4

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**Cynnig i ethol aelodau i bwyllgorau**
**NDM5440 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol:

(i) Paul Davies (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o'r Pwyllgor Busnes yn lle William Graham (Ceidwadwyr Cymreig);

(ii) Janet Finch-Saunders (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn lle William Graham (Ceidwadwyr Cymreig); a

(iii) William Graham (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o, ac yn Gadeirydd i, y Pwyllgor Menter a Busnes yn lle Nick Ramsay (Ceidwadwyr Cymreig).

**3 Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: PISA 2012 - Y wybodaeth ddiweddaraf (45 munud)**

**4 Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth: Y wybodaeth ddiweddaraf am yr Adolygiad o Ddarparu Cymorth gyda'r Dreth Gyngor (30 munud)**

**Dogfennau Ategol**
Adolygu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor
Adroddiad y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, 'Council Tax Support Schemes in England: What Did Local Authorities Choose, and with What Effects?' (Saesneg yn unig)

**5 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Dileu TB mewn Gwartheg (30 munud)**

**6 Dadl: Setliad yr Heddlu 2014-15 (30 munud)**

**NDM5435 Lelsey Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2014-2015 (Setliad Terfynol - Comisiynwyr Heddlu a Throeseddu) a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2014.

**Dogfen Ategol**
Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2014-2015 (Setliad Terfynol - Comisiynwyr Heddlu a Throseddu) - Saesneg yn unig

**7 Dadl: Dyfodol ein gorffennol - cyfeiriadau newydd ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru (60 munud)**

**NDM5434 Lelsey Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi cynnydd Llywodraeth Cymru hyd yma o safbwynt ei Strategaeth Amgylchedd

Hanesyddol ynghyd â'r camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad ar "dyfodol ein gorffennol".

I weld y Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol dilynwch y ddolen ganlynol:

http://cadw.wales.gov.uk/historicenvironment/policy/historicenvironmentstrategyforWales/?skip=1&lang=cy

I weld yr ymgynghoriad "Dyfodol ein Gorffennol" dilynwch y ddolen ganlynol:

http://wales.gov.uk/consultations/cultureandsport/heritage-bill/?skip=1&lang=cy

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â bwrw ymlaen ag uno Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a CADW.

**Gwelliant 2 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi tystiolaeth yn rheolaidd o effaith polisïau treftadaeth ar leihau tlodi yng Nghymru.

**Gwelliant 3 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi'r newyddion diweddaraf am y gwaith a wnaed i greu Cynghrair Treftadaeth i Gymru neu ymddiriedolaeth cadwraeth treftadaeth genedlaethol.

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno gofyniad statudol bod awdurdodau lleol yn

llunio rhestr leol o adeiladau sy'n cael eu hystyried yn asedau hanesyddol yn eu hardaloedd drwy unrhyw Fil Treftadaeth yn y dyfodol, ac i ddarparu canllawiau a pholisïau enghreifftiol ar gyfer eu cynlluniau datblygu lleol i ategu hyn.

**Gwelliant 5 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i greu categori ar gyfer adeiladau rhestredig sy'n dangos agweddau pwysig ar hanes cymdeithasol, economaidd, diwylliannol neu filwrol lleol.

**8 Dadl: Cynnig i gytuno ar Femorandwm Llywodraeth Cymru ar y Broses Cydsyniad Deddfwriaethol (30 munud)**

**NDM5436 Lelsey Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Memorandwm Llywodraeth Cymru ar y Broses Cydsyniad Deddfwriaethol, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 7 Ionawr 2014.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Llywodraeth Cymru ar y Broses Cydsyniad Deddfwriaethol

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ar yr Ymchwiliad i roi pwerau i Weinidogion Cymru yn Neddfau'r DU

Ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol -Ymchwiliad i'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru yn neddfau'r DU: adolygiad o'r canlyniadau

Ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 19 Chwefror 2014